

FFURFIAU GWASANAETHAU ARBENNIG  
I GOFFÁU  
EI DDIWEDDAR UCHELDER BRENHINOL  
Y TYWYSOG PHILIP,  
DUG CAEREDIN

Y CYNNWYS

Ffurf I: Y Cymun Bendigaid

Ffurf II: Gwasanaeth Coffa Arbennig

## FFURF I: Y CYMUN BENDIGAID

### *Y COLECT*

Dragwyddol Dduw, ein Creawdwr a'n Gwardwr,  
caniatâ i ni, gyda'th was PHILIP, Dug Caeredin,  
a'r holl ffyddloniaid ymadawedig,  
ddoniau sicr dioddefaint achubol  
ac atgyfodiad gogoneddus dy Fab:  
fel, ar y dydd diwethaf,  
pan gesgli bopeth yng Nghrist,  
y cawn ni, gyda hwy, fwynhau llawnder dy addewidion;  
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,  
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi  
yn undod yr Ysbryd Glân,  
yn un Duw,  
yn awr ac am byth.  
**Amen.**

*neu:*

Dad trugarog ac Arglwydd pob bywyd,  
molwn di am iti ein llunio ar dy ddelw  
i adlewyrchu dy wirionedd a'th oleuni.  
Diolchwn i ti am fywyd Ei Uchelder Brenhinol PHILIP, Dug Caeredin,  
am y cariad a dderbyniodd gennyt ac a amlygodd yn ein plith.  
Uwchlaw pob dim, llawenhawn yn dy addewid grasol  
i'th holl wasanaethyddion, y byw a'r meirw,  
y cyfodwn eto ar ddyfodiad Crist.  
Gofynnwn am i ninnau, yng nghyflawniad yr amser,  
gael rhannu gyda'th was Philip  
y weledigaeth eglurach honno a addawyd i ni  
yn yr un Iesu Grist ein Harglwydd;  
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn oes oesoedd.  
**Amen.**

### *Y DARLLENIADAU*

Yr Hen Destament: Job 19: 23-27a  
Y Salm: 16: 4-10  
Y Testament Newydd: Rhufeiniaid 8: 31-diwedd  
Yr Efengyl: Ioan 11: 17-27

*Y RHAGLITH BRIOD*

A gyfododd yn fuddugoliaethus o blith y meirw  
ac sy'n ein cysuro ni  
â'r gobaith gwynfydedig o fywyd tragwyddol.  
I'th bobl ffyddlon di, O Arglwydd,  
newidir bywyd ond nid ei gymryd ymaith,  
ac wedi dileu'r corff anianol hwn gan angau,  
fe ddarperir cartref tragwyddol inni  
yn y nefoedd gyda thi.

*Y WEDDI ÔL-GYMUN*

Dduw grasol,  
yn y sacrament sanctaidd hwn  
rwyf yn rhoi sylwedd i'n gobaith:  
dwg ni yn y diwedd at y bywyd cyflawn hwnnw  
yr ydym yn dyheu amdano;  
trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr.  
**Amen.**

*neu:*

Dad yn y nefoedd,  
caniatâ i ni, wedi ein bwydo â bara bywiol y nef  
ac wedi ein huno yng nghorff dy Fab,  
fod yn deml i'th bresenoldeb,  
yn drigfan i'th ogoniant ar y ddaear  
ac yn arwydd o'th ras achubol;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.  
**Amen**

## FFURF II: GWASANAETH COFFA ARBENNIG

*Gellir arfer un neu fwy o'r BRAWDDEGAU hyn a gellir canu emyn.*

Dyweddodd Iesu... "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd.  
Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw;  
a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth."

*Ioan 11:25-26*

Ni ddaethom â dim i'r byd,  
ac felly hefyd na allwn fynd â dim allan ohono.  
Yr ARGLWYDD a roddodd, a'r ARGLWYDD a ddygodd ymaith.  
Bendigedig fyddo enw'r ARGLWYDD.

*1Timotheus 6:7, Job 1:21*

Duw'r oesoedd yw dy noddfa,  
ac oddi tanodd y mae'r breichiau tragwyddol.

*Deuteronomium 33: 27*

Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes,  
nac angylion na thywysogaethau,  
na'r presennol na'r dyfodol,  
na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau,  
na dim arall a grewyd,  
ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

*Rhufeiniaid 8:38-39*

Cyfododd Crist oddi wrth y meirw,  
trwy ei angau ei hun fe sathrodd ar angau  
gan roi bywyd i'r rhai sydd yn y bedd.

*Emyn Pasg yr Uniongred*

*Y Gweinidog:* Yn enw Crist,  
a fu farw ac a gyfodwyd  
er gogoniant i Dduw Dad,  
gras, trugaredd a thangnefedd a fo gyda chwi.

*Gall y gweinidog ddechrau'r gwasanaeth â'r geiriau hyn neu rai eraill.*

Yr ydym yn cyfarfod heddiw i gofio gerbron Duw  
Ei Uchelder Brenhinol PHILIP, Dug Caeredin,  
i adnewyddu ein hymddiriedaeth a'n hyder yng Nghrist,  
ac i weddio y cawn oll fod yn un ynddo ef,  
yr offrymwn drwyddo ein gweddïau a'n mawl i'r Tad.

*Yna dywed y gweinidog*

Duw, brysia i'n cynorthwyo.  
**Arglwydd, prysura i'n cymorth.**

Bendigedig wyt ti, Arglwydd ein Duw, carwr eneidiau;  
ti sydd yn ein cadw pan fyddom byw  
ac yn ein cynnal yn awr angau:  
i ti bo'r gogoniant a'r mawl am byth!  
Oherwydd y mae tywyllwch yr amser hwn yn mynd heibio  
wrth i Grist, y seren fore eglur,  
ddwyn i'w saint oleuni bywyd.  
Fel y rhoddi di oleuni i'r rhai sydd mewn tywyllwch,  
sydd yn rhodio yng nghysgod angau,  
felly cofia yn dy deyrnas dy was ffyddlon PHILIP, Dug Caeredin,  
y byddo angau iddo ef yn borth i'r bywyd  
ac i gymundeb diderfyn â thi;  
lle, gyda'th saint, yr wyt yn fyw ac yn teyrnasu,  
yn un yn undod perffaith cariad,  
yn awr ac am byth.  
**Amen.**

*Pawb:* **Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

*Dywedir neu cenir un o'r SALMAU isod.*

Yr Arglwydd yw fy Mugail  
*Salm 23*  
neu: Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm gwardigaeth  
*Salm 27*  
neu: Aeth rhai i'r môr mewn llongau  
*Salm 107:23-32*  
neu: Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd  
*Salm 121*  
neu: Arglwydd, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod  
*Salm 139:1-12*

*Darllenir un o'r LLITHIAU isod.*

1 Corinthiaid 15: 20–diwedd  
neu: Rhufeiniaid 8: 28–39  
neu: Datguddiad 7: 9–diwedd  
neu: Datguddiad 21: 1–7

*Cenir ANTHEM neu EMYN.*

*Gellir PREGETHU.*

*Y Gweinidog: Gweddiwn*

Arglwydd, trugarha wrthym.  
**Crist, trugarha wrthym.**  
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad,**  
**yr hwn wyt yn y nefoedd,**  
**sancteiddier dy enw,**  
**deled dy deyrnas,**  
**gwneler dy ewyllys;**  
**megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.**  
**Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol**  
**a maddau i ni ein dyledion,**  
**fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.**  
**Ac nac arwain ni i brofedigaeth;**  
**eithr gwared ni rhag drwg.**  
**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,**  
**a'r gallu, a'r gogoniant,**  
**yn oes oesoedd.**  
**Amen.**

Y mae eneidiau'r cyfiawn yn llaw Duw :  
**ac ni ddaw poenedigaeth byth i'w rhan.**

*Doethineb Solomon 3:1*

Arglwydd, gwaredaist fy mywyd rhag angau:  
**fy llygaid rhag dagrau a'm camau rhag llithro.**

*Salm 56:13*

Rhodiaf gerbron yr Arglwydd :  
**yn nhir y rhai byw.**

*Salm 116:9*

*Dewiser GWEDDIAU i'w hoffrymu o blith yr isod:*

Dad trugarog ac Arglwydd pob bywyd,  
molwn di am iti ein llunio ar dy ddelw  
i adlewyrchu dy wirionedd a'th oleuni.  
Diolchwn i ti am fywyd Ei Uchelder Brenhinol PHILIP, Dug Caeredin,  
am y cariad a dderbyniodd gennyt  
ac a amlygodd yn ein plith.  
Uwchlaw pob dim, llawenhawn yn dy addewid grasol  
i'th holl wasanaethyddion, y byw a'r meirw,  
y cyfodwn eto ar ddyfodiad Crist.  
Gofynnwn am i ninnau, yng nghyflawniad yr amser,  
gael rhannu gyda'th was Philip  
y weledigaeth eglurach honno  
a addawyd i ni yn yr un Iesu Grist ein Harglwydd.  
**Amen.**

Dragwyddol Dduw, ein Creawdwr a'n Gwardwr,  
caniatâ i ni, gyda'th was PHILIP, Dug Caeredin,  
a'r holl ffyddloniaid ymadawedig,  
ddoniau sicr dioddefaint achubol  
ac atgyfodiad gogoneddus dy Fab:  
fel, ar y dydd diwethaf,  
pan gesgli bopeth yng Nghrist,  
y cawn ni, gyda hwy,  
fwynhau llawnder dy addewidion;  
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,  
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi  
yn undod yr Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr ac am byth.  
**Amen.**

Hollalluog Dduw,  
Tad pob trugaredd a rhoddwr pob cysur,  
bydd rasol wrth y rhai sy'n galaru:  
aelodau'r Teulu Brenhinol,  
y Genedl hon  
a holl Genhedloedd y Gymanwlad,  
fel, trwy fwrw pob gofal arnat ti,  
y cawn brofi diddanwch dy gariad;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.  
**Amen.**

Tywys ni, O Arglwydd ein Duw, yn ein deffro olaf,  
at drigfan a phorth y nefoedd,  
i fynd drwy'r porth hwnnw a byw yn y drigfan honno,  
lle na fydd tywyllwch na disgleirdeb  
ond un goleuni gwastadol;  
dim twrw na thawelwch,  
ond un gerddoriaeth wastadol;  
dim ofnau na gobeithion,  
ond un meddiant gwastadol;  
dim diwedd na dechreuad,  
ond un tragwyddoldeb gwastadol;  
yn nhrigfannau dy ogoniant a'th fawrhydi  
byth bythoedd.

**Amen.**

*seiliwyd ar weddi John Donne (1571–1631)*

Cofia, O Arglwydd,  
yr hyn a wnaethost ti ynom,  
ac nid ein haeddiant ni;  
a chan i ti ein galw i'th wasanaeth,  
gwna ni'n deilwng o'n galwedigaeth:  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Amen.**

Dduw trugarog,  
darperaist i'r rhai sy'n dy garu  
y fath bethau daionus sydd uwchlaw ein deall:  
tywallt yn ein calonnau'r fath gariad tuag atat,  
fel y bo i ni, sy'n dy garu ymhob peth  
ac uwchlaw pob dim,  
allu derbyn dy addewidion,  
sy'n fwy rhagorol na dim y gallwn ni ei ddeisyfu;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,  
yn undod yr Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**Amen**



## Y CYFLWYNO

Cyflwynwn y diweddar Ddug Caeredin, Philip,  
i ddwylo Duw, ein Crëwr a'n Gwaredwr.

*Distawrwydd*

*Bydd y gweinidog yn arfer y weddi o ymddiried a chyflwyno sydd isod, neu weddi briodol arall:*

O Dduw ein crëwr a'n gwaredwr,  
trwy dy allu gorchfygodd Crist farwolaeth  
a mynd i mewn i'w ogoniant.  
Yn llawn hyder yn ei fuddugoliaeth  
a chan hawlio ei addewidion,  
ymddiriedwn y diweddar Ddug Caeredin, Philip, i'th drugaredd  
yn enw Iesu ein Harglwydd,  
a fu farw ac sy'n fyw  
ac yn teyrnasu gyda thi,  
yn awr a byth.  
**Amen.**

*Gellir arfer Gweddiau Cyflwyno eraill sydd wedi eu hawdurdodi.*

*Gellir dweud neu ganu Kontakion yr Uniongred i'r Ymadawedig*

Dyro orffwys, O Grist, i'th was gyda'r saint:  
lle nad oes poen na thristwch na galar mwy,  
ond bywyd yn dragwyddol.  
Ti yn unig yw'r un anfarwol,  
crëwr a lluniwr pob un ohonom.  
Marwolion ydym:  
o'r ddaear y'n lluniwyd,  
i'r ddaear y dychwelwn;  
oherwydd felly yr ordeiniaist pan greaist fi, gan ddweud:  
"llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli".  
I'r llwch y disgyn pawb ohonom ni;  
ond hyd yn oed uwch y bedd canwn ein cân:  
Alelwia, Alelwia, Alelwia.

Caniatâ inni, Arglwydd,  
fyw yn dy ofn,  
marw yn dy ffafr,  
gorffwys yn dy dangnefedd,  
cyfodi yn dy nerth  
a theyrnasu yn dy ogoniant;  
er mwyn dy annwyl Fab dy hun,  
Iesu Grist ein Harglwydd.  
**Amen.**

William Laud (1573–1645)

Dyro iddo, O Arglwydd, orffwys tragwyddol:  
**A llewyrched goleuni gwastadol arno.**

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd:  
**Yn enw Crist. Amen.**

Arhosed cymorth Duw gyda ni,  
a gorffwysed ein brodyr a'n chwiorydd ymadawedig  
mewn tangnefedd yn yr Arglwydd,  
**a chyfodi mewn gogoniant. Amen.**

*Gellir canu'r EMYN isod, neu ddewis emyn arall.*

O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,  
A'n cymorth tra bo byd;  
Ein cysgod dan bob timestl groes,  
A'n bythol gartref clyd.

Dan gysgod dy orseddfa bu  
Preswylfa'r Saint mewn hedd;  
Digonol yw dy fraich o'n tu,  
A golwg ar dy wedd.

Cyn llunio ffurf un hanfod byw,  
na gosod seiliau byd,  
O dragwyddoldeb ti sydd Dduw,  
A'r un wyt ti o hyd.

Mil o flynyddoedd yn dy wŷydd  
Fel doe yn cilio sydd,  
Neu fore wylidwriaeth fer  
Yn darfod gyda'r dydd.

Dwg amser fel llifeiriant cryf  
O'i flaen holl oesau'r llawr;  
Yn angof ânt, fel breuddwyd brau  
Diflannant gyda'r wawr.

O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,  
A'n gobaith tra bo byd,  
Bydd Geidwad inni dan bob croes,  
A'n bythol gartref clyd.

Isaac Watts (1674-1748),  
cyf. Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfa, 1827-1895)

*Y FENDITH*

Bydded i Dduw yn ei gariad a'i drugaredd diderfyn  
ddwyn yr Eglwys gyfan,  
y byw a'r meirw yn yr Arglwydd Iesu,  
i atgyfodiad llawen  
a chyflawniad ei deyrnas dragwyddol;  
a bendith Duw hollalluog,  
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,  
a fo yn eich plith  
ac a drigo gyda chwi yn wastad.  
**Amen.**

*YR ANTHEMAU CENEDLAETHOL*

God save our gracious Queen,  
Long live our noble Queen,  
God save the Queen.  
Send her victorious,  
Happy and glorious,  
Long to reign over us:  
God save the Queen.

Thy choicest gifts in store  
On her be pleased to pour,  
Long may she reign.  
May she defend our laws,  
And give us ever cause,  
To sing with heart and voice,  
God save the Queen.

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,  
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri;  
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,  
Dros ryddid collasant eu gwaed.

Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad.  
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,  
O bydded i'r heniaith barhau.

#### NODYN

Mae'r ffurfiau litwrgaidd a geir yma yn cynnwys testunau, o adrannau sydd eisoes yn bod, o'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn yr Eglwys yng Nghymru, hynny yw *Trefn ar gyfer y Cymun Bendigaid* Hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru a Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2004, 1984; *Gweddi Ddyddiol* Hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru a Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2010; a *Gwasanaethau Angladd* Hawlfraint © Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2020. Ac eithrio lle y nodir fel arall, Sallwyr *Gweddi Ddyddiol* yr Eglwys yng Nghymru a olygir pan gyfeirir at y salmau.

#### AWDURDODIAD

Awdurdodwyd y ffurfiau gwasanaeth hyn gan bob un o esgobion esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru i'w harfer yn eu priod esgobaethau. Mae'r Esgobion yn ddiolchgar i Eglwys Loegr a Gwasg Prifysgol Caergrawnt am y caniatâd i addasu'r ffurfiau a gymeradwywyd gan Archesgobion Caergaint a Chaerefrog i'w harfer yn eu taleithiau.

#### CANIATÂD

Gellir atgynhyrchu'r gwasanaethau naill ai yn eu crynswth neu'n rhannol mewn unrhyw fodd heb fod angen caniatâd ysgrifenedig. Mae'r cyhoeddwyr yn ddiolchgar am y caniatâd a gafwyd i gynnwys deunydd dan hawlfraint. Tra gwnaed pob ymdrech, ni fu bob amser yn bosibl adnabod ffynonellau gwreiddiol y cyfan o'r deunydd a ddefnyddiwyd nac olrhain pob daliwr hawlfaint. Os deuir ag unrhyw hepgoriad i'n sylw cynhwyswn gydnabyddiaethau priodol mewn unrhyw gyhoeddiadau pellach.